BWYD A DIOD CYMRU
FOOD AND DRINK WALES

**COFNODION BWRDD DIWYDIANT BWYD A DIOD CYMRU**
**3 Mehefin 2015**
**THE VILLAGE BAKERY, WRECSAM**

**YN BRESENNOL**

Robin Jones (Cadeirydd)
Andy Richardson
Alison Lea-Wilson
David Lloyd
Huw Thomas
Justin Scale
Llior Radford
Marcus Sherreard
Dr Norma Barry
Andrew Slade, Llywodraeth Cymru
Peredur John, Llywodraeth Cymru
David Morris, Llywodraeth Cymru
Ruth Akers, Llywodraeth Cymru
Susie Abson, Llywodraeth Cymru

**YMDDIHEURIADAU**

Buster Grant
Rebecca Evans AC, y Dirprwy Weinidog Amaeth a Bwyd
Keith Smyton, Llywodraeth Cymru

**Eitem 1: Croeso**

- Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru, a chan mai hwn oedd cyfarfod cyntaf Norma Barry, gofynnodd iddi roi braslun o'i chefndir a'r modd y gallai hi gyfrannu.
- Trafododd yr aelodau'r cylch gorchwyl drafft FDWIB(15)01 gan awgrymu y dylid aros nes cynhelir cyfarfod llawn o'r Bwrdd cyn cytuno arno, rhag ofn y byddai gan yr aelodau newydd awgrymiadau i'w hystyried.
- Dywedodd y Cadeirydd y byddai hyn, ynghyd â'r modd roedd y Bwrdd wedi'i sefydlu, yr is-grwpiau a'r modd y byddai'r Bwrdd yn ymwneud â grwpiau eraill, yn cael ei drafod yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd llawn ym mis Medi. Gofynnodd y Cadeirydd am sylwadau gan yr aelodau er mwyn i'r Bwrdd fedru symud ymlaen.

**Eitem 2: Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Mawrth 2015 (FDWIB (15) MO1**

- Nid oedd unrhyw faterion yn codi a chytunwyd bod y cofnodion yn gywir.

**Eitem 3: Recriwtio – y wybodaeth ddiweddaraf**

- Cafodd yr aelodau wybodaeth am yr ail gylch recriwtio.

- I sicrhau cysondeb, defnyddiwyd y Panel Cyfweld gwreiddiol eto a'r un un broses ddethol /cyfweld.
- Gwahoddwyd deuddeg o ymgeisydd i'w cyfweld.
- Cafodd y Bwrdd wybod mai'r Gweinidogion fyddai'n cytuno ar yr ymgeiswyr y barnwyd y gellid eu penodi. Caiff yr aelodau newydd eu cyhoeddi'n fuan, yn y Sioe Frenhinol Cymru ym mis Gorffennaf o bosibl.

**Eitem 4: Y wybodaeth ddiweddaraf am Fwrdd y Rhaglen – y cerrig milltir allweddol a'r amserlenni ar gyfer rhoi'r Cynllun Gweithredu Bwyd a Diod ar waith – fel rhan o waith cyfathrebu'r Bwrdd.**

- Cafodd y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf am Fwrdd y Rhaglen a chafwyd manylion y gwaith sy'n mynd rhagddo. Trafodwyd cyfleoedd i roi cydnabyddiaeth i gynnyrch bwyd Cymru ac i ymgysylltu â manwerthwyr.
- Cafodd yr aelodau'r wybodaeth ddiweddaraf am lansio'r Cynllun Gweithredu Twristiaeth Bwyd, a'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd sydd ar gael drwy gyllid y Cynllun Datblygu Gwledig a chais Interreg gydag Iwerddon a fydd yn canolbwyntio ar ddatblygu busnesau bwyd a diod drwy greu clystyrau.
- Lansiwyd y Porth Sgiliau a'r Cynllun Gweithredu Sgiliau yn ddiweddar. Tanlinellwyd pa mor bwysig fyddai datblygu partneriaethau i roi'r agenda hon ar waith. Byddai'r gwaith yn mynd rhagddo ar ffurf clystyrau. Clywodd yr aelodau fod cydweithwyr ym maes Polisi Bwyd wedi bod yn cydweithio â thîm Bagloriaeth Cymru i gynnwys gyrfaoedd ym maes bwyd a modiwlau'n gysylltiedig â bwyd yn y Fagloriaeth.
- Roedd yr holl weithgareddau eraill yn mynd rhagddynt yn ôl y disgwyl.

**Eitem 5: Materion yn ymwneud â'r diwydiant**

- Cafodd yr aelodau gyfle i gyflwyno unrhyw faterion y teimlent roedd angen i'r Bwrdd fod yn ymwybodol ohonynt.
- Trafododd yr aelodau'r ffaith bod manwerthwyr dan bwysau parhaol oherwydd gostyngiadau, oherwydd bod archfarchnadoedd yn gwerthu nwyddau o dan eu labeli'u hunain ac yn rhoi'r gorau i werthu nwyddau wedi'u brandio. Soniodd aelodau'r Bwrdd am eu problemau busnes eu hunain a'u profiadau o ran arloesi ym maes pecynnu, cyflwyniadau a chynhyrchion. Teimlwyd bod hyn o'r pwys mwyaf.
- Trafododd yr Aelodau faterion yn ymwneud â diogelwch bwyd yn y DU. Clywodd yr aelodau bod y Tîm Polisi yn ymgysylltu'n rheolaidd â'r Asiantaeth Safonau Bwyd a bod yr Asiantaeth hon wedi sefydlu uned trosedd bwyd yn ddiweddar. Yn ogystal â hyn, roedd aelod o'r tîm Polisi Bwyd yn bresennol yng nghyfarfodydd y Rhaglen Diogelwch Bwyd Byd-eang, a'r Grŵp Cydgysylltu Cydnerthedd dan arweiniad Defra. Byddai'r aelodau'n cael gwybod am unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol.

**Eitem 6: Cyflwyniad gan Heavenly**

- Croesawodd y Cadeirydd John Rhys i'r cyfarfod. Roedd am gyflwyno casgliadau'r gwaith a gwblhaodd Heavenly yn ddiweddar ar hunaniaeth Bwyd a Diod Cymru. Rhoddodd gyflwyniad byr i'r aelodau ar y casgliadau a rhoddodd gyfle iddynt ofyn cwestiynau.

**Eitem 7: Cyflwyniad ar arfarnu economaidd – Brookdale Consulting**

- Comisiynwydd Brookdale Consulting gan Lywodraeth Cymru i gynnal arfarniad economaidd cynhwysfawr o'r sector bwyd a diod yng Nghymru. Daw'r arfarniad i ben ar 10 Gorffennaf a chaiff y canlyniadau eu cyflwyno yn Sioe Frenhinol Cymru. Aethant ati i gyflwyno'u casgliadau cychwynnol ac fe'u croesawyd gan yr aelodau.

**Eitem 8: Cyflwyniad addysg a sgiliau gan yr Adran Gwaith a Sgiliau**

- Rhoddodd Adran Gwaith a Sgiliau Llywodraeth Cymru drosolwg ar yr agenda addysg a sgiliau. Cafwyd darlun o waith yr Adran gan amlinellu dulliau o hybu cydweithrediad a'r cyfleoedd a oedd ar gael i wneud hynny.
- Clywodd yr aelodau fod cyfle i ddatblygu prentisiaethau lefel 3 yn ymwneud yn benodol â bwyd a gofynnwyd am farn y Bwrdd ynghylch a oedd angen prentisiaethau ar lefel uwch ym maes bwyd yng Nghymru.
- Trafododd yr aelodau'r cyfle, ond roeddent yn teimlo bod angen rhagor o fanylion arnynt cyn y gallent benderfynu.

**Cyflwyniad Addysg a Sgiliau gan Improve**

- Croesawodd y Cadeirydd Improve Ltd i'r cyfarfod i roi trosolwg ar eu meysydd gwaith a'r clystyrau 'sgiliau' arfaethedig yn y diwydiant i ddwyn pobl/busnesau ynghyd i feithrin sgiliau ac i ddiwallu anghenion hyfforddi.
- Aeth Improve ati i roi cyflwyniad i'r Bwrdd ar Bartneriaeth Sgiliau Diwydiant Llaeth Cymru a sefydlwyd yn ddiweddar a'r posibiliadau a oedd ar gael i'r sectorau eraill. Gellid gweithredu hyn ar ffurf thematig hefyd.
- Byddai Improve yn hoffi gweithio gyda sectorau eraill i sefydlu partneriaethau tebyg a gofynnwyd i'r aelodau nodi beth, yn eu barn nhw, fyddai'r 3-4 sbardun nesaf ar gyfer datblygu grwpiau clwstwr newydd i hybu'r diwydiant.
- Trafodwyd hyn ond ni chafwyd cytundeb. Penderfynodd y Bwrdd ohirio cytundeb nes byddai'r arfarniad economaidd wedi'i rhydau, er mwyn seilio'u penderfyniad ar y wybodaeth a gyflwynwyd.

**Eitem 9: Cyfarfodydd nesaf**

- Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 24 Medi. Cynigiodd David Lloyd gynnal y cyfarfod ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd, a chytunwyd â'i gynnig.

**Eitem 10: Unrhyw fater arall**

- Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am eu cyfraniadau.
- Dywedodd y Cadeirydd wrth y Bwrdd ei fod yn rhoi'r gorau i'w swydd fel Cadeirydd dros dro, a hynny oherwydd bod ei fusnes wedi tyfu cymaint; ni allai neilltuo digon o amser mwyach i waith y Bwrdd, er gwaethaf ei fwriad gwreiddiol, gan fod ei gwmni, Village Bakery, wedi ehangu. Roedd ganddo ddau fecws a byddai un arall yn cael ei adeiladu'r flwyddyn nesaf, ac roedd yn rhaid iddo ymrwymo'n llawn i'w fusnes a'i weithwyr. Nid oedd yn fodlon ymrwymo'n rhannol i waith y Bwrdd, ac felly roedd wedi dod i'r casgliad y byddai'n well iddo ymddiswyddo.
- Ni chodwyd unrhyw fater arall. Daeth y cyfarfod i ben.